

Helpu pobl i weld ffordd ymlaen

Gweithio gyda Chyngor ar Bopeth
Canllaw i Aelodau Seneddol



cyngor ar
bopeth

Rhagair

Ledled Cymru a Lloegr, mae Cyngor ar Bopeth ar flaen y gad yn darparu cyngor cyfrinachol ac annibynnol yn rhad ac am ddim i bobl mewn angen. Mae ein rhwydwaith o bron i 250 o elusennau annibynnol, lleol yn cydweithio i greu cymdeithas lle mae pobl yn wynebu llai o broblemau.

Mae pobl yn dod aton ni gyda phob math o broblemau, ac rydyn ni'n gweithio'n galed i'w helpu i weld ffordd ymlaen – rhywbeth sy'n gyffredin rhyngon ni a staff yn eich swyddfa etholaeth chi.

Mae'r canllaw yma'n cynnwys gwybodaeth am amrywiaeth o faterion, gan gynnwys camau ymarferol y gallwch chi a'ch swyddfa eu cymryd pan fydd rhywun yn dod atoch am gymorth a gwybodaeth am sut gall eich canolfan Cyngor ar Bopeth lleol eich helpu i gynghori etholwyr, rheoli gwaith achos a chael mynediad at ddata etholaeth.

Rydyn ni hefyd yn trafod sut gallwn ni gydweithio yn San Steffan a'r tu hwnt ar faterion sy'n effeithio ar eich etholwyr ac eraill ledled Cymru a Lloegr.

Gobeithio y bydd hwn yn adnodd defnyddiol i chi a'ch staff ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i helpu'ch etholwyr, pwy bynnag ydyn nhw a beth bynnag yw eu problem.



Y Fonesig Clare Moriarty
Prif Weithredwr, Cyngor ar
Bopeth

Gall gweithio gyda'ch canolfan Cyngor ar Bopeth Lleol fod yn berthynas hynod fuddiol i Aelodau Seneddol Lleol. Mae pob swyddfa yn rhan o rwydwaith cenedlaethol mwy. Mae hyn yn golygu bod gennym ni wybodaeth ddofn a chadarn am y problemau sy'n wynebu'ch etholwyr. Gallwn eich helpu i ddeall sut mae'ch etholaeth yn cymharu â gweddill y wlad o ran y problemau mae pobl yn eu profi, i helpu i sicrhau eich bod yn gweithio er mwyn dylanwadu ar y pethau sydd bwysicaf i bobl.

Fel arweinydd ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau pobl, mae'n siŵr y byddwch chi a'ch tîm yn gallu cynnig cymorth i lawer o'ch etholwyr. Fodd bynnag, gallai meithrin perthynas â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth Lleol agor llwybr atgyfeirio i'ch etholwyr gael mynediad at gyngor arbenigol ychwanegol mewn meysydd fel budd-daliadau lles, materion defnyddwyr, ynni, dyledion a thai.

Edrychwn ymlaen at gael gweithio gyda chi i helpu pobl yn ein cymuned leol.



Andy Brown

Prif Weithredwr, Cyngor ar Bopeth Manceinion

Cynnwys

Pwy ydym ni a beth rydyn ni'n ei wneud

Beth mae Cyngor ar Bopeth yn ei wneud.....	5
Beth yw ein heffaith?.....	6
Prif faterion cyngor.....	7
Ein sianeli cyngor.....	8

Sut gall Cyngor ar Bopeth eich helpu yn lleol ac yn ganolog

Eich canolfan Cyngor ar Bopeth lleol.....	11
Cefnogi eich gwaith Seneddol.....	14

Pecyn cyngor: sut i ymdrin ag ymholiadau'ch etholwyr ac ymateb iddynt

Cyflwyniad i'r pecyn	16
Eich sgwrs gyntaf gydag etholwr sy'n chwilio am gyngor.....	18
Camau nesaf – arwyddbostio, atgyfeirio neu ymdrin â'r mater eich hunan?.....	20
Advisernet.....	21

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod unrhyw beth pellach, cysylltwch â
cita-publicaffairs@citizensadvice.org.uk

Uchafbwyntiau



Pa faterion sy'n achosi trafferth i fy etholwyr?

Tudalen 8



Sut gall Cyngor ar Bopeth fy helpu i reoli gwaith achos?

Tudalen 12



Ydy Cyngor ar Bopeth yn gallu rhoi data lefel etholaeth i fi?

Tudalen 13



Ble galla i ddod o hyd i ragor o wybodaeth i helpu fy etholwyr?

Tudalen 15

**Pwy ydym ni a beth
rydyn ni'n ei wneud**



Beth mae Cyngor ar Bopeth yn ei wneud?

Gall pob un ohonon ni wynebu problemau sy'n ymddangos yn gymhleth neu'n frawychus. Yn Cyngor ar Bopeth, rydyn ni'n credu na ddylai neb orfod wynebu'r problemau yma heb gyngor annibynnol o ansawdd da.

Ers 85 mlynedd, ni yw un o'r unig sefydliadau sy'n darparu cyngor arbenigol diduedd sydd wedi'i deilwra am ddim ar ystod eang o faterion, o faterion defnyddwyr i les, o ddyledion i gymorth cyfiawnder troseddol. Yn 2022-23, fe helpon ni bobl gyda 4.9 o broblemau rhyngberthynol. **Mae ein cyngor cyfannol yn rhoi gwybodaeth unigryw i ni am yr heriau mae pobl yn eu hwynebu heddiw.**

Gyda **gwasanaethau Cyngor ar Bopeth lleol mewn 1,600 o leoliadau ledled Cymru a Lloegr, mae'r cyngor rydyn ni'n ei ddarparu wedi'i wreiddio mewn cymunedau lleol.** Mae ein hymgynghorwyr yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ac awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt.

Gyda rhenti'n codi, biliau'n codi a safonau byw'n gostwng yn sylweddol, mae llawer o deuluoedd yn byw ar y gwynt. Rydyn ni'n gweld dau berson y funud sydd angen cymorth mewn argyfwng – fel atgyfeiriadau i fanc bwyd neu gymorth gyda'u mesuryddion rhagdalau. Yn 2022-23, fe wnaeth dros 24,500 o staff ymroddedig a gwirfoddolwyr sydd wedi cael hyfforddiant sylweddol **helpu dros 2.66 miliwn o bobl gyda chyngor un-i-un, ac fe fu dros 60 miliwn o ymweliadau â'n gwefan gyngor.**

Rydyn ni'n gweithio ledled Cymru a Lloegr. Mae yna Gyngor ar Bopeth ar wahân yn yr Alban (www.cas.org.uk), ac asiantaethau cyngori eraill [yng Ngogledd Iwerddon](#).

Beth yw ein heffaith?

Rydym yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl



Dyweddodd **84%** o bobl y byddent yn ein hargymell i ffrind



Dyweddodd **70%** o bobl ein bod wedi helpu i ddatrys eu problemau



Roedd **72%** o bobl yn ei gweld yn hawdd dod atom ni

Rydym yn arbed arian i'r gymdeithas



Fe wnaeth ein cyngor ni arbed **£681 miliwn** i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus



Am **bob £1** sy'n cael ei gwario ar ein gwasanaeth, mae'r bobl rydyn ni'n eu helpu **£7.64** yn well eu byd

Rydym yn helpu i fynd i'r afael ag achosion problemau


Rydyn ni'n defnyddio ein data a'n gwybodaeth i nodi achosion problemau pobl, ac yn gweithio gyda llywodraethau a llunwyr polisi i fynd i'r afael â gwraidd y problemau yma. Mae rhai pethau rydyn ni wedi bod yn gweithio arny'n nhw'n ddiweddar yn cynnwys:

- Ein [Dangosfwrdd Costau Byw](#) sydd ar gael yn gyhoeddus, yn ogystal â sesiynau briffio misol, sy'n olrhain sut mae'r argyfwng wedi effeithio ar bobl ar draws gwahanol leoliadau a grwpiau demograffig
- Gwthio am waharddiad ar osod mesuryddion rhagdalau gorfodol er mwyn helpu miliynau o bobl gyda'u biliau ynni
- Sicrhau bod budd-daliadau'n cynyddu yn unol â chwyddiant yn Natganiad yr Hydref 2023

Prif faterion cyngor

Yn 2022-23, fe ddarparon ni gymorth un-i-un i 2.66 miliwn o bobl. Cafwyd 61 miliwn o ymweliadau pellach â'n gwefan.

Y prif faterion rydym yn helpu pobl â nhw



Ein sianeli cyngor

Mae llawer o ffyrdd y gall pobl gael mynediad at ein cyngor cyffredinol:

- Gwybodaeth hunan-gymorth ar wefan Cyngor ar Bopeth
- Llinell ffôn cenedlaethol neu gynghorydd sgwrsio ar-lein
- Bron i 250 o elusennau Cyngor ar Bopeth lleol annibynnol mewn 1,600 o leoliadau ledled Cymru a Lloegr

Ewch i citizensadvice.org.uk/contact-us i gael manylion ein gwasanaethau cyngor arbenigol:

- Mae'r llinell gymorth gwasanaethau defnyddwyr yn helpu gyda phroblemau fel nwyddau diffygiol neu sydd wedi torri, neu broblemau gydag ynni neu'r post
- Mae'r Uned Cymorth Ychwanegol yn helpu pobl sydd â chwynion cymhleth yn ymwneud ag ynni neu'r post. Gall Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth neu Aelod Seneddol gyfeirio pobl ato.
- I gael cymorth i wneud cais i gael Credyd Cynhwysol, gall pobl gysylltu â'n gwasanaeth Cymorth i Wneud Cais
- Ar gyfer materion dyled ac arian (wedi'i ariannu gan y Gwasanaeth Arian a Phensiynau)
- Mae'r Gwasanaeth Tystion yn rhoi cymorth i dystion yn y llysoedd
- Mae Pension Wise yn rhoi arweiniad i bobl dros 50 oed ar bensiynau

I bobl yng Nghymru, mae [Advicelink Cymru](#) yn darparu cyngor ar ystod o feysydd, ac mae'n cynnwys llinellau cymorth Cyflogaeth a Gwahaniaethu 9 Arbenigol a Dyledion y Sector Rhentu Preifat.

Sut gall Cyngor ar Bopeth eich helpu – yn lleol ac yn ganolog



Cyngor ar Bopeth yn eich cymuned: sut gall y ganolfan Cyngor ar Bopeth leol eich helpu

Mae pob un o'n helusennau Cyngor ar Bopeth lleol annibynnol yn rhannu nod cyffredin gyda chi – gwella bywydau pobl yn eich cymuned a helpu'r rhai sy'n wynebu problemau i weld ffordd ymlaen.

Gallwch ddod o hyd i'ch canolfan Cyngor ar Bopeth lleol yn **citizensadvice.org.uk/contact-us**. Cysylltwch i weld sut gallwch chi gydweithio. Gallai hyn gynnwys:

- Cyngori'ch etholwyr
- Eich helpu i reoli gwaith achos
- Darparu data ar y problemau sy'n effeithio ar eich etholwyr

Cyngori'ch etholwyr

Ni fydd ein cyngorwyr hyfforddedig yn dweud wrth eich etholwyr beth i'w wneud. Byddan nhw'n esbonio'r opsiynau sydd ar gael a chanlyniadau posib gwahanol gamau gweithredu. Gallai hyn gynnwys:

- Negodi gyda chwmnïau neu ddarparwyr gwasanaeth (fel credydwyr) neu apelio yn erbyn penderfyniadau, er enghraifft, ar hawliadau budd-dal lles
- Blaenoriaethu eu problemau, er enghraifft, i ddatrys pa ddyledion sydd bwysicaf
- Ymdrin â biwrocratiaeth, er enghraifft helpu i lenwi ffurflenni
- Atgyfeirio pobl at weithwyr achos arbenigol ar gyfer problemau cymhleth neu at asiantaethau eraill pan fo hynny'n briodol

Rydyn ni hefyd yn cynnig tanysgrifiadau i'n hadnodd cyngor ar-lein – AdviserNet – sy'n darparu gwybodaeth gyda sicrwydd ansawdd ar faterion fel cyflogaeth, budd-daliadau, tai a dyledion. Mae rhagor o wybodaeth ar dudalen 21.

Eich helpu i reoli gwaith achos

Un o swyddogaethau canolog swyddfa Aelod Seneddol yw rheoli gwaith achos a datrys problemau a phryderon etholwyr.

Mae sefydlu perthynas waith gref gydag asiantaethau lleol yn helpu i sicrhau bod problemau'n cael sylw yn brydlon ac yn systematig.

Gall sgwrs gynnar gyda Phrif Weithredwr eich canolfan Cyngor ar Bopeth leol helpu i sefydlu ffyrdd o reoli gwaith achos ac atgyfeiriadau, rhannu arbenigedd a chytuno ar y ffordd orau o weithio gyda'ch swyddfa.

Mae sawl ffordd y gall gweithio'n agos gyda Chyngor ar Bopeth eich helpu i reoli gwaith achos. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cytundebau ar flaenoriaethu achosion
- Cynnal cymorthfeydd ar y cyd ar bynciau arbenigol, fel cyngor ar dai neu fudd-daliadau
- Cytuno ar brosesau croesgyfeirio i sicrhau bod etholwyr yn cael cymorth gan gynghorwyr arbenigol, a phan fydd gofyn i Aelod Seneddol ymyrryd mewn achos, y gellir gwneud cais am hynny mewn ffordd briodol.
- Rhannu safle ar gyfer sesiynau cyngori

Gall Aelodau Seneddol a chanolfannau Cyngor ar Bopeth lleol hefyd gyfuno eu harbenigedd, eu rhwydweithiau lleol a'u presenoldeb yn y cyfryngau i gynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth llwyddiannus ar broblemau sy'n effeithio ar bobl leol.

Darparu data etholaeth

Mae gan Gyngor ar Bopeth swmp heb ei ail o dystiolaeth rheng flaen, mewn amser go iawn sy'n dangos y problemau mae pobl yn eu hwynebu.

Gallwn ddarparu data etholaethol manwl i chi ar amrywiaeth o faterion. Er enghraifft, mae ein dangosfyrddau etholaethau lleol yn rhoi trosolwg o'r problemau mwyaf cyffredin mae pobl yn eu hwynebu, eu demograffeg a pha rannau o'r etholaeth maen nhw'n byw ynddynt.

Os ydych chi am ymchwilio'n ddyfnach i broblem benodol sy'n effeithio ar eich etholwyr, gallwn eich helpu i weld unrhyw dueddiadau lleol.

Y tro nesaf y byddwch yn ymweld â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth lleol, gofynnwch am arddangosiad o'r hyn sydd ar gael.



Cefnogi eich gwaith yn San Steffan: sut gall Cyngor ar Bopeth yn ganolog eich helpu

Ochr yn ochr â'ch helpu yn eich etholaeth, gall Cyngor ar Bopeth gefnogi eich gwaith Seneddol drwy eiriolaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Rydyn ni'n helpu 7 ym mhob 10 o bobl i ddatrys eu problem. Pan fydd gan rywun broblem na allwn ei datrys, methiant polisi systemig yw'r rhwystr yn aml.

Rydyn ni'n helpu llywodraeth a diwydiant i ddod o hyd i ffyrdd o wella pethau i bobl. Gyda'n data lleol a chenedlaethol, rydyn ni'n deall effaith polisi a rheoleiddio, ac yn dod o hyd i atebion pan fydd yn cael effaith negyddol ar fywydau pobl. Yna byddwn yn gweithio i wneud yr achos dros newid, ar ran y bobl sy'n dod aton ni i gael cymorth a'r gymdeithas yn ehangach.

Gallwn ni helpu eich swyddfa drwy wneud y canlynol:

- Rhannu tystiolaeth ac argymhellion polisi i helpu i lywio'ch gwaith
- Llunio briffiau ar gyfer dadleuon yn y Tŷ
- Awgrymu diwygiadau i ddeddfwriaeth
- Darparu ystadegau ategol ac astudiaethau achos dienw
- Eich cefnogi chi i gael golwg agosach ar reng flaen Cyngor ar Bopeth drwy gyfleoedd hyfforddi a chysgodi

Mae gennym wybodaeth am amrywiaeth o faterion, gan gynnwys ynni, budd-daliadau, dyledion, materion defnyddwyr a thai. Ni hefyd yw hyrwyddwr statudol defnyddwyr y farchnad ynni, a'r corff gwarchod defnyddwyr statudol ar gyfer y gwasanaeth post.

I gael rhagor o wybodaeth, syniadau ar sut gallech chi weithio gyda Chyngor ar Bopeth neu i gael cymorth i drefnu cyfarfod gyda'ch canolfan Cyngor ar Bopeth leol, e-bostiwch **cita-publicaffairs@citizensadvice.org.uk**

Pecyn Cyngor: sut i ymdrin ag ymholiadau'ch etholwyr ac ymateb iddynt



Cyflwyniad i'r pecyn

Bydd etholwyr yn gofyn am eich cyngor, eich cymorth a'ch dylanwad ar ystod eang o faterion. Bwriad y tudalennau canlynol yw bod yn ganllaw cryno ar y ffordd orau o ymdrin â rhai o'r materion mae'ch etholwyr yn debygol o'u codi, ac ymateb iddynt.

Ar **citizensadvice.org.uk**, fe welwch chi'r canlynol:

- Cyngor cam wrth gam ar amrywiaeth o bynciau, gydag atebion i gwestiynau allweddol a'r wybodaeth y bydd ei hangen arnoch i helpu'ch etholwyr i ddatrys eu problemau
- Manylion sefydliadau allweddol y gallai fod angen i chi arwyddbostio ac atgyfeirio pobl atynt
- Amrywiaeth o offer defnyddiol, fel cyfrifiannell budd-daliadau neu ein hofferyn cyllidebu

Rydyn ni hefyd yn cynnig tanysgrifiadau i'n hadnodd cyngor ar-lein manylach – AdviserNet, sydd wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer gweithwyr achos cynghori.

Mae llawer o bobl yn wynebu mwy nag un broblem, fel lefelau uchel o ddyled bersonol sy'n bygwth digartrefedd ac sy'n effeithio ar iechyd meddwl neu gorfforol pobl. Weithiau gall y problemau yma ymddangos yn amhosib i'w goresgyn.

Drwy roi'r cyngor sydd ei angen ar bobl, gallwn eu cefnogi i weithio drwy'r problemau yma. Mae stori Nina (ar y dudalen nesaf) yn un enghraifft o'r problemau mae pobl yn eu hwynebu – a sut gallwn ni eu helpu i weld ffordd ymlaen.

Stori Nina*

Roedd Nina ar ei hôl hi yn talu rhent. Roedd y bygythiad o gael ei throi allan yn gwneud iddi deimlo'n bryderus iawn ac yn gwaethygu cyflwr iechyd hirdymor oedd ganddi eisoes, gan ei gwneud yn anoddach ei reoli.

Allai hi ddim datrys y broblem ar ei phen ei hunan ac roedd angen cymorth arni.

Aeth Nina i swyddfa'i Haelod Seneddol lleol. Fe wnaeth gweithiwr achos o'r enw Anna helpu Nina i weithio drwy ei phroblem. Daeth i ddeall bod newid wedi bod yn sefyllfa cyflogaeth Nina yn ddiweddar, a dyna pam roedd hi ar ei hôl hi gyda thalu rhent.

Aeth Anna ati i helpu Nina i ysgrifennu llythyr at ei landlord a sefydlu cynllun talu. Roedd hyn yn atal ei landlord rhag ceisio'i throi allan. Aeth ati hefyd i gyfeirio'r achos at y ganolfan Cyngor ar Bopeth lleol fel y gallai Nina gael mwy o gymorth gyda materion ariannol.

Fe fuodd Sam, sy'n gynghorydd gwirfoddol, yn helpu Nina i lunio cyllideb i helpu gyda'i dyledion eraill. Gan fod Nina ar gontract oriau hyblyg, fe wnaeth Sam ei helpu hefyd i ddeall ei hawliau yn y gwaith yn well.

Ar ôl cael cyngor, gwellodd ansawdd bywyd Nina. Roedd ei sefyllfa o ran ei chartref yn llawer mwy diogel erbyn hyn – ac roedd hi'n teimlo'n llai pryderus o ganlyniad. Roedd ganddi hefyd fwy o reolaeth dros ei sefyllfa ariannol, a chyllideb roedd hi'n gallu ymdopi â hi.

Roedd atal Nina rhag cael ei throi allan o'i chartref, a gwella'i hiechyd meddwl a chorfforol yn golygu nad oedd angen cymorth ychwanegol arni gan y gwasanaethau cyhoeddus.

Gwellodd ei lles, ac roedd ganddi arian ychwanegol yn ei phoced i helpu gyda chostau bob dydd.

**Mae'r enw wedi'i newid*



Eich sgwrs gyntaf gydag etholwr sy'n chwilio am gyngor

Er bod eich sgwrs gyntaf gydag etholwr yn bwysig iawn, mae'n gallu bod yn anodd hefyd. Fel mae stori Nina'n ei ddangos, efallai y bydd pobl yn dod atoch chi gyda phroblemau difrifol ac yn teimlo'n ofidus ac o dan straen.

Efallai y bydd y naw pwynt isod yn ddefnyddiol ar gyfer y sefyllfaoedd yma. Rydyn ni'n eu defnyddio nhw fel rhan o'n hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr Cyngor ar Bopeth:

1. Os ydych chi ar y ffôn, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'ch enw ac yn egluro pwy ydych chi
2. Siaradwch yn dawel a rhowch eich sylw llawn iddynt
3. Ceisiwch ddeall cyflwr meddwl yr etholwr neu eu teimladau am eu sefyllfa, ac ymateb i hynny. Os ydych chi'n siarad â'r unigolyn ar y ffôn a'u bod yn ymddangos yn ofidus, efallai y bydd angen i chi awgrymu eu bod yn dod i mewn am apwyntiad wyneb yn wyneb
4. Rhowch amser i bobl egluro eu sefyllfa'n llawn. Os mai ar y ffôn mae'r sgwrs a'ch bod chi'n credu bod rhywun yn ei chael hi'n anodd egluro eu sefyllfa – efallai gan nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf neu eu bod yn anabl a bod unrhyw amhariad yn gwneud cyfathrebu ar y ffôn yn heriol – fe ddylech chi awgrymu bod yr unigolyn yn dod i mewn i gael apwyntiad wyneb yn wyneb
5. Rhowch grynodedb anfeirniadol o sefyllfa'r etholwr iddynt er mwyn dangos eich bod yn deall ac yn derbyn eu safbwynt

6. Nodwch unrhyw faterion brys mae angen gweithredu arnyn nhw'n syth a thrafodwch y posibilrwydd o fynd i'r afael â'r rhain cyn ystyried materion eraill
7. Nodwch a oes angen unrhyw gyngor arall ar yr etholwr a helpwch nhw i gysylltu â'r asiantaeth/llinell gymorth briodol
8. Os oes angen gweld llythyrau a dogfennau, fe allech chi drefnu i'r unigolyn ddod yn ôl i'r gymhorthfa neu'r swyddfa. Cofiwch, os ydych chi'n mynd i gysylltu â thrydydd partion penodol ar ran yr unigolyn, bydd angen awdurdodiad wedi'i lofnodi gan yr unigolyn dan sylw
9. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cymryd manylion cyswllt yr etholwr

Unwaith y byddwch wedi dilyn y rhestr wirio yma, fe ddylech chi fod mewn sefyllfa i ddeall pa gamau gallwch chi eu cymryd nesaf.



Arwyddbostio, atgyfeirio neu ymdrin â'r mater eich hunan?

Fel arfer mae tri opsiwn ar gyfer ymdrin ag ymholiad etholwr: arwyddbostio, atgyfeirio neu ymdrin â'r mater eich hunan.

Arwyddbostio yw pan fyddwch yn darparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth eraill, a bod yr etholwr yn cysylltu â'r sefydliadau hynny eu hunain.

Atgyfeirio yw pan fyddwch yn cytuno, gyda chydsyniad yr etholwr, i gysylltu ag asiantaeth i drefnu apwyntiad ar eu rhan. Mae hyn yn ddefnyddiol pan fydd yr achos yn un brys, pan fydd angen rhagor o gymorth ar yr unigolyn (e.e. os ydynt yn anabl neu fod ganddynt gyflwr iechyd hirdymor, bod ganddynt blant bach neu eu bod yn hŷn) neu os ydych chi eisoes wedi casglu llawer o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol wrth symud yr achos yn ei flaen. Gallai atgyfeirio fod yn briodol hefyd os oes angen cyfieithydd ar y pryd neu arwyddwr ar unigolyn.

Mae swyddfa Aelod Seneddol yn ymdrin â'r mater ei hunan. Mae yna rai sefyllfaoedd pan fydd ymyrraeth Aelod Seneddol yn gallu bod yn arbennig o ddefnyddiol i etholwr, er enghraifft, pan fydd yr unigolyn yn ceisio cael ymateb gan gorff statudol, pan fydd oedi wedi bod wrth ymdrin â chŵyn neu pan fydd pob llwybr arall wedi bod yn aflwyddiannus.

Mewn llawer o achosion, arwyddbostio neu atgyfeirio at asiantaeth gynghori yw'r cam gweithredu priodol. Dyna pam ei bod hi'n hollbwysig eich bod wedi meithrin perthynas â'ch canolfan Cyngor ar Bopeth lleol.

Mae gan ein hadnodd cyngor ar-lein cynhwysfawr, AdviserNet, lawer o wybodaeth i helpu'ch etholwyr gydag ystod eang o ymholiadau – budd-daliadau, hawliau cyflogaeth, materion arian a dyledion, materion teuluol a thai, a phroblemau sy'n eu hwynebu fel defnyddwyr.

Mae'r llwyfan hygyrch a hawdd ei ddefnyddio yma'n cael ei ddiweddarau bob dydd, a gall roi gwybodaeth ac arweiniad gyda sicrwydd ansawdd i chi a'ch tîm i helpu pobl i ddatrys problemau bywyd.

Mae'n adnodd ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, ac mae'r cynnwys yn rhoi ystyriaeth lawn i'r gwahaniaethau yn y gyfraith a rheoliadau statudol yn y tair gwlad.

Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnig mynediad i'n system AdviserNet, o dan drwydded, a gallwch [gael manylion llawn am y ffioedd a'n telerau trwyddedu ar ein gwefan](#).

Gallwch brofi AdviserNet am 14 diwrnod am ddim cyn talu am danysgrifiad llawn o 12 mis drwy lenwi'r 'ffurflen mynediad prawf' ar wefan Cyngor ar Bopeth.

Cymorth pellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am AdviserNet neu ein telerau trwyddedu, cysylltwch â thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor ar Bopeth drwy **customer.services@citizensadvice.org.uk**.

Os oes gennych gwestiwn am unrhyw beth yn y canllaw
yma neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch,
cysylltwch â **cita-publicaffairs@citizensadvice.org.uk**

Cyngor ar Bopeth
3ydd Llawr
1 Easton Street
Llundain, WC1X 0DW

Ffôn: 03000 231 231
citizensadvice.org.uk

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredol Cymdeithas
Genedlaethol Cyngor ar Bopeth.
Rhif elusen gofrestrdig 279057

